# CYNGOR CAERDYDD

## AMODAU YCHWANEGOL YN BERTHNASOL LIMOSÎNS ESTYNEDIG A DDARPERIR DRWY EU HADDASU AC A DDEFNYDDIR FEL CERBYDAU LLOGI PREIFAT

Mae'r amodau hyn a wnaed dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn benodol i gerbyd a addasir drwy estyn hyd olwynion cerbyd safonol a adeiladir mewn ffatri. At ddibenion Amodau Cerbyd Llogi Preifat dosberthir y cerbyd yn gerbyd prestige y gellir ei ddefnyddio ar gyfer priodasau a digwyddiadau arbennig yn unig. Maent yn wahanol i amodau safonol cerbyd hacni a cherbydau llogi preifat i gydnabod y ffaith y bydd limosîns estynedig yn:

i) peidio â chael eu defnyddio fel cerbydau hacni ii) teithio'n arafach na thacsis arferol iii) ni fyddan nhw fel arfer yn goddiweddyd cerbydau eraill iv) hawdd i'r llogwr eu hadnabod
v) drymach ac yn sylweddol hirach na cheir safonol vi) maen nhw wedi'i addasu gan rywun gwahanol i'r gweithgynhyrchwr gwreiddiol.

**1. CYFFREDINOL**

1.1 Rhaid darllen yr amodau ychwanegol hyn ar y cyd ag amodau safonol y Cyngor ar gyfer cerbydau hacni a cherbydau llogi preifat.

1.2 Mae "limosîn estynedig" yn fath salŵn o gerbyd yr estynnwyd ei sylfaen olwynion ar ôl ei weithgynhyrchu. At ddibenion yr amodau hyn, fe'i cyfyngir i gario hyd at, ond nid yn fwy nag, wyth teithiwr.

1.3 Mae "limosîn estynedig Americanaidd" yn limosîn estynedig a fewnforiwyd o UDA a bydd fel rheol wedi'i weithgynhyrchu'n wreiddiol gan Lincoln (Ford) neu Cadillac.

**2. AMODAU**

2.1 Bydd limosîn estynedig, yn yr achos cyntaf, yn bodloni amodau safonol cerbydau hacni a llogi preifat gyda'r eithriad y gall fod yn un â'r olwyn lywio ar y chwith, fod gyda rhai seddi sy'n wynebu i'r ochr ac efallai na fydd gwregysau diogelwch i deithwyr.

2.2 Yn achos limosîn estynedig, neu limosîn estynedig Americanaidd, bydd angen dogfennau gwreiddiol ar y Cyngor cyn ystyried cais am drwydded cerbyd:

(a) Dogfen mewnforio wedi'i chwblhau a chymeradwyaeth cerbyd sengl (SVA) neu dystysgrif MAC.
(b) Dogfen Gofrestru'r DVLA (V5).
(c) Tystysgrif Yswiriant Ddilys, sy'n cwmpasu llogi a dyfarnu.
(d) Tystysgrif MOT gyfredol a gyflwynwyd gan Awdurdod Trwyddedu a gymeradwywyd yn yr Orsaf Brofi.
(e) Lle y bo'n berthnasol, tystysgrif gosod gan Gwmni Addasu Cerbydau Cymeradwy LPGA yn y DU, yn achos cerbydau a addasir i redeg ar LPG.

2.3 Dylai'r Gweithredwr sicrhau bod limosîn estynedig <u>Americanaidd</u> hefyd yn cydymffurfio â'r canlynol:

(a) Bod ag o leiaf pedair olwyn ffordd ac olwyn sbâr maint llawn. Dylai'r teiars fod o radd a fanylir gan Ford USA h.y. cerbydau a gofrestrwyd cyn 1998 - 235/75R 15 108S (BF Goodrich Extra Load neu Gyfatebol). Rhaid i fersiynau i 1998 ymlaen gael eu gosod â 225/70R 16 107T (Reinforced))
(b) Rhaid i wregys diogelwch, lle y'u ceir, gael ei osod yn unol â Rheoliadau Cerbyd Ffordd cyfredol (Adeiladu a Defnydd).
(c) Ni fydd hyd y sylfaen olwynion (a fesurir rhwng man canol hybiau'r olwyn) yn fwy na 120"/3048mm.
(d) Bydd hysbysiad "cerbyd hir" sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu a Defnydd yn cael ei osod yng nghefn y cerbyd.

2.4 Lle y cyflenwir diod alcoholig yn y cerbyd, bydd y Gweithredwr yn rhoi copi o'i drwydded wirod i'r Awdurdod Lleol. Ni fydd unrhyw un dan 18 oed a gludir mewn limosîn estynedig yn cael yfed alcohol.

2.5 Rhaid i bob ffenestr fod mewn cyflwr da ac heb ei difrodi. Rhaid i'r ffenestr flaen alluogi o leiaf 75% o olau fynd drwyddi.

2.6 Ni chludir plant dan 16 oed mewn limosîn estynedig trwyddedig onid ydynt yng nghwmni gwarcheidwad i o leiaf un o'r plant.